

ADRODDIAD I'R CABINET
13 HYDREF 2020

Aelod Cabinet: Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

Pwnc: Rhaglen Gyfalaf 2020/21 –
Adolygiad Diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2020)

Swyddog Cyswilt: Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

Penderfyniad a geisir

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2020) o'r rhaglen gyfalaf.
 - Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
 - defnydd o amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau gwerth cyfanswm o £3,646,000 o 2019/20,
 - lleihad o £558,000 mewn defnydd o fenthyca,
 - cynnydd o £7,105,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
 - dim newid mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
 - cynnydd o £53,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,
 - dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a
 - cynnydd o £283,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.
-

1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2020/21. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £100.326m am y 3 blynedd 2020/21 – 2022/23.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £10.529m ers y gyllideb agoriadol, gyda £3.646m o'r cynnydd oherwydd llithriadau o 2019/20 (adroddwyd eisoes fel rhan o'r adolygiad diwedd blwyddyn ar 16 Mehefin 2020).

Rhan 5: Manyllder grantiau ychwanegol ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol.

Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth.

2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £44.0m yn 2020/21 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £17.1m (39%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Mae effaith argyfwng Covid19 a'r cyfnod clo ar y rhaglen gyfalaf i'w weld yn y ffigyrau a adroddir yn Atodiad C, gyda dim ond 13% o'r gyllideb sydd wedi ei wario hyd at ddiwedd Awst eleni o'i gymharu â 19% dros yr un cyfnod y llynedd.
- Mae £9.4m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2020/21 i 2021/22 a 2022/23, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

3. Rhaglen Gyfalaf 2020/21 i 2022/23

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Awst 2020.

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD AWST				CYFYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB Y GORIADOL	ADDASIAD LLITHRIAD	NEWIDIADAU ERAILL
	2020/21	2021/22	2022/23	CYFANSWM			
	£'000	£'000	£'000	£'000			
Addysg	10,248	13,631	4,632	28,511	2,107	(13)	2,120
Amgylchedd	3,668	1,009	199	4,876	1,448	(82)	1,530
Cefnogaeth Gorfforaethol	119	-	-	119	-	-	-
Cyllid	458	1,237	768	2,463	(23)	(23)	-
Economi a Chymuned	2,178	609	245	3,032	531	279	252
Tai ac Eiddo	11,147	9,016	5,052	25,215	3,441	1,447	1,994
Oedolion, Iechyd a Llesiant	2,648	3,263	1,450	7,361	234	(130)	364
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,367	250	250	1,867	579	539	40
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	9,477	2,313	4,765	16,555	2,730	2,619	111
Ymgynghoriaeth	1,186	6,336	287	7,809	573	101	472
Corfforaethol	1,518	500	500	2,518	(1,091)	(1,091)	-
CYFANSWM	44,014	38,164	18,148	100,326	10,529	3,646	6,883

4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £10.529m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb wreiddiol. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD AWST				CYNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL	ADDASIAD LLITHRIAD	NEWIDIADAU ERAILL
	2020/21	2021/22	2022/23	CYFANSWM			
	£'000	£'000	£'000	£'000			
Benthyca gyda chefnogaeth	8,116	6,610	6,610	21,336	-	-	-
Benthyca Arall	1,123	4,948	11	6,082	105	663	(558)
Grantiau a Chyfraniadau	17,128	8,765	3,277	29,170	7,634	529	7,105
Derbyniadau Cyfalaf	677	165	13	855	27	27	-
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	1,760	278	-	2,038	56	3	53
Cronfa Cyfalaf	562	4,935	-	5,497	1,439	1,439	-
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	14,648	12,463	8,237	35,348	1,268	985	283
CYFANSWM	44,014	38,164	18,148	100,326	10,529	3,646	6,883

5. Grantiau Ychwanegol

Ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol, ddiwedd Mawrth, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol o £7,503k. Mae nifer o addasiadau gan gynnwys lleihad o £398k ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £7,105k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £2,251k Grant Digartrefedd Gwedd II gan Lywodraeth Cymru
- £2,118k Grant Ysgolion Ganrif 21 – Cynlluniau Cyflwr ac Addasrwydd
- £1,310k Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol a'r Gronfa Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru
- £1,032k Grant Llywodraeth Cymru tuag at Gynlluniau Atal Llifogydd
- £230k Grant Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau oedolion
- £165k Grant Galluogi, maes tai, gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw'n annibynnol
- £106k Grant Gwella Mynediad gan Lywodraeth Cymru
- £70k Grant Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (MALD) i ddatblygu Neuadd Dwyfor
- £68k Grant Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru tuag at ddatblygiadau amgylcheddol
- £53k Grant Capasiti Ymchwydd (Covid) i gynorthwyo datblygiadau

sefydliadau gofal oedolion

- £40k Grantiau Llywodraeth Cymru i'r maes Gofal Plant - Cychwyn Cadarn, Dechrau'n Deg a Gofal Plant
- £39k Grant Cyfoeth Naturiol Cymru tuag at gynllun Llwybr yr Arfordir
- £21k Cyfraniad o'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RCDF) tuag at gynllun Ad-leoli Segontwm

6. **Argymhellion**

Gofynnir i'r Cabinet:

- dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2020/21 i 2022/23, a
- cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).

7. **Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2020/21 – 2022/23.

8. **Ystyriaethau Perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

9. **Camau Nesaf ac Amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

Barn yr Aelod Lleol

Dim yn berthnasol.

Barn y Swyddogion Statudol**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau:

- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
 - Atodiad B: Symudiadau o 2020/21 i 2021/22
 - Atodiad C: Gwariant 5 mis cyntaf 2020/21
-

Manylion y Prif Newididau

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf :

	2020/21	2021/22- 2022/23
	£'000	£'000
Grantiau a Chyfraniadau		
<ul style="list-style-type: none"> Grant Ysgolion Ganrif 21 – Cynlluniau Cyflwr ac Addasrwydd (<i>Adran Addysg</i>). 	579	1,539
<ul style="list-style-type: none"> Lleihau'r defnydd o grant Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) i ariannu Cynllun Adnewyddu Bangor (<i>Adran Economi a Chymuned</i>). 	(388)	
<ul style="list-style-type: none"> Grant Is-Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (MALD) i ddatblygu Neuadd Dwyfor (<i>Adran Economi a Chymuned</i>). 	70	
<ul style="list-style-type: none"> Grantiau Llywodraeth Cymru i'r maes Gofal Plant – Cychwyn Cadarn, Dechrau'n Deg a Gofal Plant - ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau (<i>Adran Plant a Theuluoedd</i>). 	40	
<ul style="list-style-type: none"> Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) - grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau i ddarparu gwelyau dementia ac arbenigol yn ogystal â hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>). 	230	
<ul style="list-style-type: none"> Cyfraniad o'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RCDF) tuag at gynllun Ad-leoli Segontiw (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant). 	21	
<ul style="list-style-type: none"> Grant Capasiti Ymchwydd (Covid) i gynorthwyo datblygiadau cartrefi preswyl a cyfleusterau gofal dydd (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>). 	53	
<ul style="list-style-type: none"> Grant Llywodraeth Cymru tuag at Gynlluniau Atal Llifogydd - grantiau yn cymryd lle elfen o'r ariannu Menter Benthycia Llywodraeth Leol (LGBI) (<i>Adran Ymgynghoriaeth</i>). 	1,032	
<ul style="list-style-type: none"> Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol a'r Gronfa Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau (<i>Adran Amgylchedd</i>). 	1,310	

• Grant Cyfoeth Naturiol Cymru tuag at gynllun Llwybr yr Arfordir (<i>Adran Amgylchedd</i>).	39	
• Grant Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru tuag at ddatblygiadau amgylcheddol (<i>Adran Amgylchedd</i>).	68	
• Grant Gwella Mynediad gan Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwella a hyrwyddo hawliau mynediad i dir a mannau gwyrdd (<i>Adran Amgylchedd</i>).	106	
• Grant Galluogi, maes tai, gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw'n annibynnol (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	165	
• Grant Digartrefedd Gwedd II gan Lywodraeth Cymru - nifer o gynlluniau ar draws y Sir (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	2,251	
Benthyciadau Arall		
• Angen llai o gefnogaeth Menter Benthycia Llywodraeth Leol i ariannu cynlluniau Atal Llifogydd oherwydd elfennau bellach yn cael eu hariannu trwy grant (<i>Adran Ymgynghoriaeth</i>).	(558)	
Refeniw Adrannol		
• Ariannu ychwanegol o refeniw tuag at nifer o fan gynlluniau (<i>Amrywiol Aadrannau</i>).	53	
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill		
• Cynllun o'r Gronfa Trawsfurfio i ddatblygu Neuadd Dwyfor (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	570	
• <i>Gwaith Uwchraddio Depos a Tanciau Tanwydd</i> (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).	60	
• Adnewyddu Cerbydau nifer o Unedau Priffyrdd a Bwrdeistrefol (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).	24	
• Cynlluniau yn y maes Rheoli Gwastraff gan gynnwys sgiplau a cartgylchu (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).	55	
• Elfen refeniw sydd wedi ei adnabod fel rhan o'r Strategaeth Tai i'w dynnu allan o'r Rhaglen Gyfalaf a'i roi yn erbyn y gyllideb refeniw bellach (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	(126)	(302)

Manylion Ail-broffilio

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2020/21 £'000	2021/22 £'000
Cynlluniau Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) (<i>Adran Addysg</i>)	(1,579)	1,579
Adfywio Tref a Glannau Caernarfon (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(174)	174
Cynlluniau Morwrol a Pharciau Gwledig (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(135)	135
Cynlluniau Sefydliadau Preswyl Oedolion (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>)	(294)	294
Cynlluniau Sefydliadau Gofal Dydd Oedolion (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>)	(569)	569
Pont Cadfan, Tywyn (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>)	(102)	102
Adnewyddu Cerbydau (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>)	140	(140)
Cynlluniau Atal Llifogydd (<i>Adran Ymgynghoriaeth</i>)	(1,178)	1,178
Cei Aberdyfi (<i>Adran Ymgynghoriaeth</i>)	(1,748)	1,748
Cynlluniau Trafnidiaeth (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(353)	353
Ail-wynebu Meysydd Parcio (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(219)	219
Pwyntiau Gwefru Cerbydau (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(198)	198
Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(72)	72
Cynlluniau Addasiadau Swyddfeydd (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(153)	153
Cynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(1,167)	1,167
Cynllun Gwaredu Asbestos (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(580)	580
Cynlluniau Ysgogi'r Economi (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(925)	925

Noder:

Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

Gwariant Cyfalaf 5 Mis Cyntaf 2020/21

CRYNODEB	RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Awst) 2020/21 £'000	GWIR WARIANT 5 MIS HYD AT 31/08/2020 £'000
Addysg	10,248	1,583
Amgylchedd	3,668	217
Cefnogaeth Gorfforaethol	119	5
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	458	94
Economi a Chymuned	2,178	238
Tai ac Eiddo	11,147	1,312
Oedolion, Iechyd a Llesiant	2,648	466
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,367	256
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	9,477	1,109
Ymgynghoriaeth	1,186	255
Corfforaethol	1,518	-
CYFANSWM	44,014	5,535

Noder:

Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (13%) yn is na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 5 mis 2019/20 yn 19%).